

ATODIAD I - CWESTIYNAU CYFFREDIN

1. Ai dim ond os yw'r darparwr ar fai y mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol?

Nage. Nid yw a oedd y darparwr ar fai ai peidio yn dylanwadu ar a fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno ai peidio.

2. Oes modd sbarduno'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd hyd yn oed os yw'r claf wedi rhoi cydsyniad yn briodol i gynnal triniaeth?

Oes. P'un ai oedd y claf wedi rhoi cydsyniad ai peidio, nid yw'n effeithio ar weithredu'r ddyletswydd. Os oedd y claf wedi cael profiad, neu gallai fod wedi cael profiad, o niwed anfwriadol neu annisgwyl, sy'n fwy nag ychydig o niwed a bod y gofal iechyd a ddarparwyd yn ffactor neu y gallai fod wedi bod yn ffactor, byddai'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno. Mae hyn yn cynnwys cymhlethdodau o driniaeth sy'n hysbys ac y rhoddwyd cydsyniad ar eu cyfer.

3. Sut mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn mynd i weithio ym maes Gofal Sylfaenol?

Dylai gweithredu'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd weithredu mewn lleoliadau gofal sylfaenol yn yr un modd ag y bydd yn cael ei gweithredu ar draws byrddau iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig.

4. A ydym yn sôn am ymyriad sydd wedi mynd o'i le pan fyddwn yn diffinio digwyddiad dyletswydd gonestrwydd?

Mae'n bosibl, er mai'r prif benderfynydd i sefydliad sbarduno'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd fydd drwy drafodaethau a phenderfyniadau lleol ynghylch a yw'r defnyddiwr gwasanaeth y mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu iddo, neu a gafodd ofal iechyd, wedi dioddef niwed anfwriadol neu annisgwyl sy'n fwy na mân niwed (cymedrol ac uwch) sy'n gysylltiedig (neu a allai fod yn gysylltiedig) â darparu gofal iechyd.

5. Os oedd y 'digwyddiad' wedi bod cyn i'r Ddeddf ddod i rym, ond dim ond yn ddiweddar y cafodd ei ganfod, a ddylid gweithredu'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd?

Nid oes gofyniad cyfreithiol i gyflawni'r gofynion penodol yn y Ddeddf a'r Rheoliadau Gonestrwydd ar gyfer rhywbeth a ddigwyddodd cyn i'r ddeddfwriaeth gonestrwydd ddod i rym. Fodd bynnag, y disgwyliad yw y bydd 'darparwyr gofal' yn ymddwyn yn unol â'r rheoliadau— hynny yw, ymddiheuro a bod yn agored ac yn dryloyw gyda phobl ynghylch beth bynnag sydd wedi cael ei ganfod.

Os canfyddir y 'digwyddiad' drwy adolygiad ôl-weithredol o achos a bod y digwyddiad wedi digwydd ar ôl i ofynion y Ddeddf ddod i rym yn ffurfiol, byddai hyn yn sbarduno'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd. Byddai angen cofnodi'r rhesymau'n glir dros reoli'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd yn ôl-weithredol a'u hegluro i'r unigolion dan sylw.